



Sut mae Oxfam yn gweithredu yn Niger?

Amcanion dysgu

Erbyn diwedd y wers, bydd y dosbarth yn medru:

- Deall sut mae Oxfam yn ymateb i'r materion sy'n ymwneud â phrinder dŵr
- Dysgu bod Oxfam yn ymgyrchu yn ogystal â gwneud gwaith datblygu ac argyfwng yn Niger ac o amgylch y byd. Mae'r holl waith yn gyfartal o ran pwysigrwydd
- Wedi dadansoddi'r ymatebion mwyaf addas wrth ddelio â'r problemau amrywiol o ganlyniad i'r angen am ddŵr

1. Taflu syniadau am y problemau yn Niger (sleidiau 1-4)

Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu rhestr am yr hyn maen nhw wedi ei ddysgu hyd yn hyn am y materion sy'n ymwneud â'r angen am ddŵr. e.e, dŵr budr, prinder dŵr, diffyg isadeiledd, y newid hinsawdd yn achosi tywydd eithafol a gwrthdaro yn gorfodi pobl i ffoi o'u cartrefi. Yn awr, eglurwch mai amcan Oxfam yw 'Goresgyn Tlodi a Dioddefaint'. Mae Oxfam yn gweithio'n uniongyrchol i ddatrys y materion maen nhw wedi eu rhestru mewn tua 100 o wledydd o amgylch y byd, gan gynnwys Niger.

Eglurwch fod holl waith Oxfam wedi ei ddsbarthu i 3 prif categori (h.y. atebion Ymgyrchu, Datblygu ac ymateb i Argyfwng).

h.y.

- Mae **gwaith argyfwng** yn golygu achub bywydau yn y tymor byr.
- Mae **gwaith datblygu** yn golygu cynorthwyo cymunedau i gynorthwyo eu hunain, drwy eu cefnogi a rhoi'r nerth iddynt i ddarganfod yr atebion cywir i wneud eu prosiectau yn rhai llwyddiannus.
- Mae **gwaith ymgyrchu** yn sicrhau fod lleisiau'r bobl fregus yn cael eu clywed wrth drafod y materion pwysig sy'n effeithio arny'n nhw; gorfodi arweinyddion y byd i wrando a phwyso am newid parhaol.

2. Cwblhewch y daflen waith (sleid 4)

Dosbarthwch y daflen waith (tudalen olaf y ddogfen hon) i'r myfyrwyr ei llenwi ar eu pen eu hunain, mewn parau neu fel grŵp. Gadewch sleid 4 i fyny er mwyn cynorthwyo'r myfyrwyr gyda 3ed colofn y daflen waith. Ar ôl i'r myfyrwyr lenwi'r daflen waith, trafodwch yr atebion fel dosbarth (sleid 5).



3. Casgliad.

Gofynnwch iddyn nhw esbonio wrthyhych chi beth yw argyfwng, ymgyrchu a datblygu yn eu geiriau eu hunain.

Yn olaf, gofynnwch i'r dosbarth – a atebodd gwaith Oxfam y problemau amrywiol yn y tri categori? Gobeithio mae'r ateb fydd do!

Yn awr, gofynnwch 'os mai dim ond gwaith ymgyrchu, datblygu neu ddyngarol fyddai Oxfam yn ei wneud, a fyddai hyn yn broblem? Pam?'

Gobeithio bydd y myfyrwyr yn dod i'r casgliad fod y tri math o waith gwahanol yn datrys y problemau. Drwy anwybyddu un o'r categorïau, efallai y byddwch yn anwybyddu rhai o'r problemau.

Gallwch amlygu fod arian yn angenrheidiol er mwyn galluogi Oxfam i weithredu.

4. Gwaith estynedig

Gwnewch y weithgaredd Wythnos Ddŵr, sef 'meddwl beirniadol ar waith Oxfam'. Mae'r weithgaredd hon yn defnyddio'r diagram Venn a'r taflenni ymateb diemwnt rheng er mwyn dadansoddi a datblygu dealltwriaeth y dosbarth ymhellach o 3 dull Oxfam.



Parwch y broblem â'r ateb

Sut mae Oxfam yn ymateb i faterion yn ymwneud â bod yn fregus o ran dŵr yn Niger?
Tynnwch saeth rhwng y problemau a'r atebion yn ymwneud â dŵr.

Problem yn ymwneud â dŵr	Cysylltu'r problemau â'r atebion	Atebion yn ymwneud â dŵr	Ymgyrchu / datblygu / argyfwng? <small>e.e.: Ymgyrchu / Datblygu / Argyfwng</small>
Mae diffyg isadeiledd dŵr cyffredinol wedi arwain at fethu tyfu cynydau.		Gosodwyd mannau dŵr mewn ysgolion.	Ymgyrchu / Datblygu / Argyfwng
Fe wnaeth ffermwyr mudol wrthdaro â ffermwyr pan ddefnyddion nhw eu ffynhonnau i roi dŵr i'w gwartheg.		Fe wnaeth pobl ym mhobman ymgyrchu dros ragor o drethi ar fanciau i gynhyrchu arian i wledydd tlawd.	Ymgyrchu / Datblygu / Argyfwng
Fe wnaeth sychder difrifol yn 2010 olygu nad oedd gan bobl ddŵr, a bod y ffynhonnau yn sych. Fe wnaeth hyn eu gorfodi nhw i fynd i wersylloedd dros dro.		Rhoddwyd talebau i bobl eu cyfnewid am fwyd yn y farchnad leol.	Ymgyrchu / Datblygu / Argyfwng
Nid oes gan lywodraeth Niger ddigon o arian i fynd i'r afael â'r sefyllfa o fod yn fregus o ran dŵr.		Addysg hylendid mewn gweryslyoedd argyfwng.	Ymgyrchu / Datblygu / Argyfwng
Mae newid hinsawdd yn arwain at ragor o dywydd eithriadol, fel llifogydd a sychder.		Cludwyd dŵr i'r gweryslyoedd mewn tryciau mawr.	Ymgyrchu / Datblygu / Argyfwng
Ni all plant fynd i'r ysgol gan nad oes dŵr yno.		Sefydlwyd systemau dyfrhau er mwyn helpu i ddod â dŵr i gnydau.	Ymgyrchu / Datblygu / Argyfwng
Yn 2010, arweiniodd llifogydd difrifol at ddinistrio cynydau. Nid oedd gan bobl fwyd.		Fe wnaeth ffermwyr mudol a ffermwyr gynnal cyfarfodydd cymunedol i ddatrys anawsterau ynghylch rhannu dŵr. Sefydlwyd 'hawliau tramwy' newydd i'r ffermwyr mudol.	Ymgyrchu / Datblygu / Argyfwng
Ar ôl argyfwng, aiff pobl yn sâl o ganlyniad i hylendid gwael mewn gweryslyoedd argyfwng.		Fe wnaeth pobl yn Niger ac o amgylch y byd ymuno ag ymgyrchoedd i ddweud wrth wleidyddion am wneud rhywbeth ynghylch newid hinsawdd.	Ymgyrchu / Datblygu / Argyfwng